

Y GWASANAETH ADDYSG:

CYFARFOD FFORWM CYLLIDEB YSGOLION CAERDYDD



Amser: 8.30am – 10.30am
Dyddiad: 27 Tachwedd 2019
Lleoliad: Ystafell Bwyllgor 4

AGENDA DRAFFT

Cyf	Eitem	Categori	Yn Arwain
1	Ymddiheuriadau a chroeso i'r FfCY	Eitem sefydlog	Cadeirydd
2	Cofnodion y cyfarfod blaenorol (16 Hydref 2019) a materion sy'n codi: <ul style="list-style-type: none">Diweddariad ar Broses Cyllideb 2020/21	Eitem sefydlog (papurau wedi'u hatodi)	Cadeirydd
3	Sicrhau Mynediad i Addysg	Gwybodaeth a Thrafodaeth	Mike Tate
4	Grant TGCh a model cynaliadwyedd	Gwybodaeth a Thrafodaeth (cyflwyniad wedi'i atodi)	Neil Hardee
5	Adnewyddu Asedau	Gwybodaeth a Thrafodaeth	Richard Portas
6	Unrhyw Fater Arall	Eitem sefydlog	Cadeirydd

Dyddiadau Cyfarfodydd y Dyfodol:

2020

15.01.2020 (CLG yn dilyn)
11.03.2020
08.07.2020 (CLG yn dilyn)

Y GYFARWYDDIAETH ADDYSG

COFNODION CYFARFOD FFORWM CYLLIDEB YSGOLION CAERDYDD



Amser: 8.30am – 10.30am
Dyddiad: 27 Tachwedd 2019
Lleoliad: Ystafell Bwyllgor 4, Neuadd y Sir
Yn bresennol: Sarah Griffiths - Cadeirydd (SG), y Cynghorydd Sarah Merry, y Cynghorydd Chris Weaver, y Cynghorydd Joel Williams (JW), Nick Batchelar (NB), Mike Tate (MT), Richard Portas (RP), Rob Green (RG), Neil Hardee (NH), Marc Belli (MB), Angela Jardine (AJ), Andrew Skinner (AS), Nic Naish (NN), Patrick Brunnock (PB), Ivor Gittins (IG), Suzanne Williams (SW), Ann Griffin (AG), Jane Marchesi (JM), Jane Setchfield (JS), David Silver (DS), Mari Phillips (MP), Louise Bloom – Clerc (LB)

Ymddiheuriadau: Ian Allwood (IA), John Hayes (JH), Jane Counsell (JC), David Harris (DH), Geraldine Foley (GF), Kevin Hart (KH), Karen Dell'Armi (KA), Abigail Beacon (AB), Sara Allen (SA), Tracey Stephens (TS), Adrian Dinsmore (AD), Sarah Parry (SP), Diane Gill (DG), Wayne Murphy (WM)

Cyf	Casgliadau/Camau Gweithredu	Pwy
1	Ymddiheuriadau a chroeso	
1.1	Croesawodd y Cadeirydd yr aelodau a derbyniodd ymddiheuriadau.	
2	Cofnodion y cyfarfod diwethaf a materion yn codi	
2.2	Cymeradwywyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 16 Hydref 2019 fel cofnod cywir.	
2.3	<u>Materion yn codi</u>	
2.4	Nododd NH fod cyfarfod y CLG sydd i ddilyn y FfCY wedi'i ohirio tan 15 Ionawr.	

Cofnod 2.4:

	<p>Dosbarthodd NH lythyr, a ddrafftiwyd gan Alan Evans, yn annog y gweinidog i gadarnhau cyllid y Grant Cyflawniad Lleiafrifoedd Ethnig ar gyfer 2020/21, gan ofyn am gynyddu lefel gyffredinol y cyllid er mwyn ystyried cynnydd yn nifer y dysgwyr, a chostau staffio. Bydd y Cynghorydd Merry yn ysgrifennu at y gweinidog, gan atseinio'r pryderon, yn dilyn cyfnod cyn-etholiadol.</p>	
2.6	<p>Cofnod 2.6: Trafododd RP ailddosbarthu cronfeydd wrth gefn yn eitem pump ar yr agenda.</p>	
2.7	<p>Cofnod 2.7: Cynllun Peilot Ynghylch Iechyd a Diogelwch</p> <p>Adroddodd RP fod trafodaethau o'r cyfarfod blaenorol wedi'u trosglwyddo i Donna Jones.</p>	
2.8	<p>Cofnod 3.1 Proses Cyllideb 2020/21</p> <p>Esboniodd RG oherwydd yr etholiad sydd i ddod ar 12 Rhagfyr mae proses y gyllideb wedi'i hoedi. Disgwylir setliad dros dro ar 16 Rhagfyr, gyda Llywodraeth Cymru yn pennu eu cyllideb yr un diwrnod. Disgwylir setliad terfynol ar 25 Chwefror, ddeuddydd cyn y Cyngor. Gan fod amserlenni'n dynn, nid yw swyddogion cyllid wedi gofyn am unrhyw newid rhwng y setliad dros dro a'r setliad terfynol. Rhagwelir ymgynghoriad ym mis Ionawr.</p>	
2.9	<p>Cofnod 5: Ôl-16</p> <p>Rhoddodd NH y wybodaeth ddiweddaraf:</p> <p>Canfu archwiliad ysgolion a gynhaliwyd ar gyfer darpariaeth ôl-16 fod ffigurau wedi'u chwyddo. Felly, bydd cyllid eleni, sy'n cynnwys y cyllid ychwanegol o £408,000, yn cael ei ailddosbarthu. Bydd £100k ychwanegol ar gael gan Lywodraeth Cymru ar gyfer pensiynau athrawon dosbarth y chweched dosbarth yn cael eu dosbarthu unwaith y bydd wedi dod i law. Diolchodd MB i swyddogion am ymgymryd â'r dasg.</p>	
3	<p>Sicrhau Mynediad i Addysg</p>	
3.1	<p>Tynnodd MT sylw at y gwaith a wnaed gan yr awdurdod ar nifer y disgyblion nad oeddent yn cael addysg ac edrych ar y rhesymau y tu ôl i hyn. Nid yw rhai ysgolion yn derbyn disgyblion ac nid yw rhai disgyblion yn gallu mynychu. O ganlyniad, mae camau gweithredu i'r awdurdod a'r ysgolion.</p> <p>Nodwyd bod cryn arian yn cael ei roi i ysgolion ar gyfer darpariaeth cam tri/pedwar a bod cysondeb ar draws ysgolion yn cael ei geisio. Mae gan rai ysgolion ormod o ddisgyblion. Nodwyd y dylai disgyblion gael mynediad at ddarpariaeth lawn lle gallant ac y dylid cael cymorth.</p> <p>Fel rhan o'r gwaith, bydd MT yn rhoi cyflwyniad ar brotocol, proses a chanllawiau statudol mewn cynadleddau penaethiaid cynradd ac uwchradd cyn y Nadolig. Bydd dogfen sy'n gofyn am adborth yn cael ei dosbarthu i benaethiaid cyn y cynadleddau. Diolchodd i benaethiaid am eu cymorth gyda'r panel anodd eu gosod, sydd wedi dangos cynnydd.</p>	

	<p>Nododd MB nad oes gan rai disgyblion a dderbynnir i ysgolion gynlluniau cymorth bugeiliol, sy'n rhoi staff a disgyblion mewn sefyllfa agored i niwed. Sicrhaodd MT bod y rhesymau pam mae'r disgyblion wedi bod allan o'r ysgol ers peth amser yn cael eu hystyried a rhoddir y cymorth cywir i'r ysgol sy'n derbyn y plentyn. Croesawodd MB y gefnogaeth a byddai'n herio pan gaiff ysgolion eu gorfodi i dderbyn plant gan benaethiaid cynorthwyol gan y dylai'r derbynnydd deimlo ei fod mewn sefyllfa i helpu. Roedd MT o'r farn y byddai sefyllfa Dangosyddion Perfformiad Allweddol yn caniatáu cysondeb protocol, ac nid yw canllawiau statudol yn cael eu dilyn ar hyn o bryd. Byddai canlyniadau yn dilyn hynny. Bydd yr awdurdod yn gweithio gyda phenaethiaid.</p> <p>Cododd yr Aelodau bryderon ynghylch diffyg darpariaeth, nododd swyddogion fod dros £500,000 o ddarpariaeth wedi'i roi ar waith ar gyfer pedwar deg saith o ddisgyblion anodd eu gosod.</p> <p>Rhannodd y Cynghorydd JW y pryderon, croesawodd y gwaith sy'n cael ei wneud a gofynnodd i swyddogion ymgysylltu â llywodraethwyr ac undebau ysgolion. Argymhellodd y dylid ystyried yr amgylchiadau a chwblhau asesiadau risg i liniaru'r risg o ymosodiadau i staff a disgyblion. Cytunodd MT fod tryloywder y system yn hanfodol i symud ymlaen.</p> <p>Atgoffodd y Cynghorydd SM yr aelodau mai fforwm cyllideb yw'r cyfarfod ac y byddai'n well trafod pynciau nad ydynt yn rhai ariannol yn fforwm y Strategaeth Addysg. Fodd bynnag, roedd o'r farn bod deiliant plant os ydynt yn aros allan o addysg yn wael iawn, gyda dyfodol difethedig a bod yna gyfrifoldeb ar y cyd. Os nad yw disgyblion mewn addysg, mae costau ariannol yn ymddangos ar fantolen, ond y gost fawr yw'r gost ddynol.</p> <p>Tynnodd NN sylw at ddiffyg cyfathrebu i ysgolion disgyblion nad ydynt yn yr ysgol ers peth amser a gofynnodd am gyfathrebu ymlaen llaw fel y gall yr ysgol baratoi ar gyfer eu hanghenion. Mae gan yr ysgol gynradd rywfaint o ddisgyblion blwyddyn saith gan nad oes ganddynt le eto, sy'n effeithio ar blant yr ysgol gynradd. Ailadroddodd MT y byddai'r system yn agored, yn dryloyw ac yn glir.</p> <p>Awgrymodd MB fod pob ysgol yn rhoi canran o arian i ddarparu ar gyfer disgyblion y tu allan i addysg. Croesawodd MT fewnbwn ar y ddogfen sy'n cael ei dosbarthu i benaethiaid.</p>	
4	Grant TGCh a model cynaliadwyedd	
4.1	<p>Cyfeiriodd NH at £50m o gyllid gan Lywodraeth Cymru i ehangu Hwb, rhaglen Llywodraeth Cymru i wella'r defnydd o dechnoleg ddigidol ar gyfer addysgu a dysgu mewn ysgolion. O'r cyllid hwn, mae gan Gaerdydd £700k i hwyluso gwariant a £4.3m i'w wario drwy'r catalog cenedlaethol. Mae £5m ar gael i'w wario cyn 31 Mawrth 2019.</p> <p>Y flwyddyn nesaf bydd £30m yn cael ei ddyrannu i Gymru ac £20m y flwyddyn ganlynol. Fel un o amodau'r cyllid, gofynnir i awdurdodau ymrwymo i gyflawni model cynaliadwy ar draws eu holl ysgolion a gynhelir. Er mwyn gweithio tuag idol TGCh fydd yn cyfarfod ar 28</p>	

	<p>Tachwedd. Bydd penaethiaid o ysgolion cynradd, uwchradd ac arbennig yn d i'r</p> <p>Disgwylir i bob disgybl fod yn fedrus wrth ddefnyddio technoleg erbyn 2030. Bydd o leiaf un ddyfais ar gael i bob dau blentyn a bydd y plattform Hwb yn cael ei ddefnyddio. Nodwyd bod trwydded Microsoft ar gael i bob plentyn yng Nghymru.</p> <p>Mae archwiliad wedi'i gynnal ar gyfer pob ysgol i ddeall ei strwythur TGCh presennol a bydd gofynion lefel uchel yn cael eu cyflwyno i Lywodraeth Cymru. Mae angen i offer a brynwyd erbyn 31 Mawrth 2019 gael eu gosod erbyn diwedd y flwyddyn academaidd.</p> <p>Er na fyddai pob ysgol yn cael yr un peth yn y rownd gyntaf gan fod rhai ysgolion wedi buddsoddi'n helaeth mewn TGCh, bydd seilwaith pob ysgol yn cael ei godi i'r lefel isaf. Bydd fframwaith caffael cenedlaethol Llywodraeth Cymru yn cael ei rannu pan fydd yn hysbys. Bydd model ariannu cynaliadwy i Gaerdydd a CLG TGCh yn cael eu trafod ymhellach. Y gobaith yw y byddai gan ddyfeisiau gylch bywyd o dair i bedair blynedd a bydd gan y seilwaith gylch bywyd o saith i ddeng mlynedd. Ar hyn o bryd, mae'n ymddangos bod ysgolion yn gwario £3m bob blwyddyn ar TGCh, gyda chanlyniadau amrywiol.</p> <p>Croesawodd JS gyllid ar gyfer TGCh, gan nodi bod hyfforddiant staff yn allweddol i sicrhau bod staff yn gallu defnyddio'r adnoddau a'r pecynnau a holwyd a yw adnoddau'n cael eu neilltuo ar gyfer hyfforddiant staff. Cadarnhaodd NH fod rhyw elfen o'r cyllid ar gyfer hyfforddiant a gofynnir i CCD ystyried hyfforddiant o'r dechrau.</p> <p>Argymhellodd JS y dylai athrawon brofi'r pecynnau i sicrhau eu bod yn addas at y diben a holodd a fyddai'r cyllid ar gyfer y swydd Ymgysylltu â Chwsmeriaid a nodwyd yn ddiweddar yn dod o'r cyllid hwn. Ymatebodd NH y bydd nifer y swyddi mewn TGCh yn cael eu hystyried ac nid yw'n hysbys ar hyn o bryd.</p> <p>Nododd NH fod sicrwydd ariannol partneriaid yn risg, byddai rheolaethau ar baramedrau ac amodau yn cael eu rhoi ar waith.</p> <p>Adroddodd RP y byddai Ysgol Gynradd Nant Caerau yn ysgol beilot; efallai y bydd ysgolion eraill yn ymweld i weld sut mae'n gweithio ac ystyried y manteision/anfanteision. Mae'n gobeithio treialu mewn mwy o ysgolion cynradd. Bydd anghenion pob ysgol yn cael eu hystyried yn unigol.</p> <p>Gwnaeth yr Aelodau'r pwyntiau canlynol:</p> <p style="padding-left: 40px;">Gallai'r plant ddod â'u dyfais eu hunain a gall yr ysgol brynu dyfeisiau i'r plant hynny nad ydynt yn gallu dod â'u dyfeisiau hwy i mewn. Daeth perthynas waith trydydd parti i ben oherwydd cyfathrebu.</p> <p>Atseiniodd DS y pwyntiau a wnaed; bydd y maes busnes yn cael ei ailosod, gan ymdrin â buddsoddi a seilwaith gyda'i gilydd, dan arweiniad dychymyg addysgeg, dyhead addysg a defnydd o dechnoleg. Bydd diweddariadau</p>	<p>NH</p> <p>NH</p>
--	--	---------------------

	rheolaidd yn cael eu cyflwyno i'r fforwm.	
5	Adnewyddu Asedau	
5.1	<p>Nododd RP falans o tua £500k yn y gronfa wrth gefn. Mae'r gronfa'n cefnogi ysgolion mewn gwaith gwerth isel na all yr ysgol ei fforddio. Roedd yr adborth a gafwyd yn dangos anhawster i gael gafael ar yr arian. Felly, bydd arolwg yn cael ei ddsbarthu i ysgolion yn gofyn a ddylid parhau â'r gronfa wrth gefn neu ei dileu ac ailddosbarthu'r arian yn ôl i ysgolion. Gofynnir am adborth cyn y Nadolig am benderfyniad ym mis Chwefror i baratoi ar gyfer y flwyddyn ariannol newydd.</p> <p>Nododd y Cadeirydd fod ysgolion wedi talu i mewn i'r gronfa CLG a byddai angen ailddosbarthu'n deg ac yn briodol.</p> <p>Nododd RP y bu adolygiad sylweddol o adnewyddu asedau ac adnoddau, bod nifer o newidiadau'n cael eu cynnal gan gynnwys TGCh, Un Drws Ffrynt a chyfathrebu. Mae'r system un drws ffrynt yn darparu un pwynt cyswllt. Bydd rhaglen flynyddol ar gyfer diwedd y flwyddyn yn cael ei chyfleu.</p> <p>Dywedodd y cafwyd tanwariant o £6.5m eleni, y flwyddyn nesaf bydd gwariant yn cynyddu'n sylweddol, gan ganolbwyntio ar ddiogelu, iechyd a diogelwch, gwella tân a model cynhaliath. Esboniodd RG fod y tanwariant yn deillio'n bennaf o grant cyfalaf a dderbyniwyd gan Lywodraeth Cymru ddiwedd y flwyddyn ariannol ddiwethaf, gan arwain at ddisodli cyllid ac yna ei gyflwyno i'r blynyddoedd dilynol.</p> <p>Cododd JW bryder ynghylch y polisi teithio llesol; gofynnodd y Cadeirydd i hyn ddysg. Ychwanegodd RP y byddai priffyrdd ychwanegol yn rhan o'r rhaglen y flwyddyn nesaf.</p> <p>Gofynnodd NN am ddadansoddiad o'r gwaith a oedd wedi cael sylw hyd yma a chostau.</p> <p>Dywedodd RP y byddai'n trafod cynigion a goblygiadau staffio, sy'n cael eu trafod ar hyn o bryd gydag undebau, mewn cyfarfod yn y dyfodol.</p>	RP
6.	Unrhyw Fater Arall	
6.1	<p>Cyfeiriodd AS at lythyr a ysgrifennwyd at NB yn codi pryderon ynghylch cyllid ac effaith ar ddarpariaeth. Er bod cyllidebau'n heriol, roedd NB o'r farn bod canlyniadau gwell yn cael eu cyflawni ar lai o adnoddau dros y pum mlynedd diwethaf. Tynnodd sylw at y ffaith yr oedd gan ysgolion bryderon sylweddol ar ddiwedd y flwyddyn ariannol ddiwethaf, ond cafodd llawer o arian ei gario ymlaen yn y sector cynradd. Dywedodd AS fod lefelau salwch staff yn ysgol Marlborough wedi cynyddu, a hynny oherwydd llai o staff cymorth yn ei farn ef.</p> <p>Nododd y Cynghorydd SM fod yr awdurdod wedi ceisio diogelu addysg cyn belled ag y bo modd, ond oherwydd toriadau sylweddol, mae cydbwysu'r gyllideb yn heriol, byddai newid mewn cyllid cyhoeddus yn cael ei groesawu.</p> <p>Gofynnodd NH i AS a oedd graddau'r amrywion yn gwaethygu problemau ac</p>	

	os yw'n teimlo bod yr ysgol mewn gwell sefyllfa ar gyfer y cynlluniau sydd ar y gweill, cadarnhaodd ei bod hi, ond gyda gwariant.	
7	Dyddiad y cyfarfod nesaf: 15 Ionawr 2020	